

# Materion Ariannol

## Beth sydd angen ei wybod



Weithiau gall cost fyw a chost rhedeg cartref fod yn llethol. Rydym yma i'ch helpu y gorau ag y gallwn ni.

Gallwn ni roi ystod o gyngor gan gynnwys cyllidebu, cynyddu eich incwm i'r eithaf a phrynu yswiriant i'r cartref am bris isel. Os bydd angen y cymorth hwn arnoch chi nawr neu yn y dyfodol yna cysylltwch â ni. Rydym yma i'ch helpu chi.

## Y gost sydd ynghlwm â rhedeg cartref

O'r eiliad y byddwch chi'n symud i mewn bydd angen talu biliau – rhent, treth y cyngor, nwy, trydan, dŵr ayyb. Gall y rhain fod yn llethol ond os ydych chi'n glyfar gydag arian gallwch chi eu rheoli.



### Chwiliwch am y cynigion gorau

Boed ei bod ar gyfer eich nwy neu'ch trydan, eich yswiriant neu'ch ffôn symudol dylech chi bob amser chwilio i weld pa gynigion neu ostyngiadau y gallwch eu derbyn. Mae nifer o wefannau i gymharu prisoedd a fydd yn gallu eich helpu, ymhlith y rhain mae:

- [www.moneysupermarket.com](http://www.moneysupermarket.com)
- [www.comparethemarket.com](http://www.comparethemarket.com)
- [www.confused.com](http://www.confused.com)



### Gofynnwch a oes hawl gennych chi dderbyn cymorth ar gyfer eich biliau ynni

Mae cynlluniau a gostyngiadau fel Gostyngiad Cartrefi Cynnes a Thaliad Tanwydd Gaeaf ar gael sy'n gallu eich helpu i dalu eich biliau. Mae meini prawf ynghlwm â derbyn y taliadau hyn, dysgwch fwy yn [www.gov.uk/](http://www.gov.uk/)

Mae Dŵr Cymru'n cynnig llawer o gynlluniau gwahanol i'ch helpu chi gan gynnwys Water Sure Wales, Water Direct, Customer Assistance Fund a Help U. Ewch i'w gwefan <http://www.dwrcymru.com/> i dderbyn gwybodaeth bellach am y cymorth sydd ar gael.



## Peidiwch â bychanu grym cyllidebu

Galwch heibio i'r swyddfa a chasglwch eich cynlluniwr cyllideb am ddim. Gallwn ni fynd trwy hyn gyda chi pe bai angen cymorth arnoch chi.

**Os bydd angen benthyg arian** – dylech chi fenthyg mewn ffordd gyfrifol nid gan fenthyciwr arian anghyfreithiol. Gall rhai o'r cyfraddau llog fod dros 100% felly dylech chi bob amser wirio'r costau.

## Sicrhewch eich bod yn derbyn yr holl incwm y mae gennych hawl iddo

Dewch i mewn a siaradwch â'n Swyddogion Cynyddu Incwm i'r Eithaf sy'n gallu gweithio gyda chi i weld pa gymorth y mae gennych chi hawl iddo. Gwyddem y gall ffurflenni fod yn gymhleth i'w deall a'u cwblhau felly byddant yn eich helpu i wneud cais am hyn

## CYNGOR AR ARIAN A DYLED

Gall bod mewn dyled fod yn adeg bryderus ond mae cyngor a chymorth ar gael gennym ni neu gan asiantaethau eraill megis Cyngor ar Bopeth a Shelter Cymru. Ffoniwch ni a gofynnwch am siarad â'n tîm Cynyddu Incwm i'r Eithaf i dderbyn gwybodaeth bellach.

Os ydych chi'n cael trafferth yn talu eich rhent peidiwch â mynd i banig, cysylltwch â ni. Rydym yma i'ch helpu chi. Gallwn ni weithio gyda chi i sefydlu cynlluniau talu y gallwch chi eu fforddio, gallwn ni hefyd edrych ar y budd-daliadau efallai y mae gennych chi hawl i'w derbyn a gallwn ni drefnu cyfarfodydd ag asiantaethau megis Cyngor Ar Bopeth os bydd angen cyngor ariannol pellach arnoch chi.

## NEWIDIADAU I FUDD-DALIADAU A CHI

Cafwyd nifer o newidiadau i'r system fudd-daliadau wrth i rai budd-daliadau gael eu hamnewid a rheolau newydd gael eu gosod er mwyn gallu hawlio rhai budd-daliadau eraill.

I ddysgu am y newidiadau diweddaraf i fudd-daliadau a sut y byddant yn effeithio arnoch chi cysylltwch â'n Tîm Cynyddu Incwm i'r Eithaf.

Pe bai'n well gennych chi, mae llawer o wybodaeth a chyngor defnyddiol ar gael ar y rhyngwyd. Ymhlith y gwefannau hyn mae:

- [www.gov.uk](http://www.gov.uk)
- [www.moneyadviceservice.org.uk](http://www.moneyadviceservice.org.uk)
- [www.citizensadvice.org.uk](http://www.citizensadvice.org.uk)

